# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ37655 a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar 6 Hydref 2004

**At Jonathan Morgan:**

Yn ystod cwestiynau ar 22 Medi bu ichi godi'r mater o gyllid ar gyfer darpariaeth teledu cylch cyfyng ac addewais roi ateb i chi.

Fel y gwyddoch, mae swm sylweddol o gyllid ar gael i bartneriaethau diogelwch cymunedol ledled Cymru i'w ddefnyddio ar gyfer blaenoriaethau a benderfynir yn lleol. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, maent yn rhannu cyllid gan y Swyddfa Gartref o dros £7.5 miliwn, a £2.8 miliwn o gronfa cymunedau diogelach y Cynulliad, ar gyfer prosiectau diogelwch cymunedol. Partneriaid sydd i benderfynu y mathau o brosiectau y maent yn dymuno eu cyllido a gall y rhain gynnwys darparu CCTV ar gyfer camerâu llonydd neu symudol neu sicrhau gwelliannau/estyniadau i systemau CCTV sy'n bodoli eisoes. Gallant ddisgwyl cael yr un lefel o gyllid gan y Swyddfa Gartref yn 2005-06, ac mae disgwyl i'w cyfran hwy o gronfa cymunedau diogelach y Cynulliad gynyddu i £4.3 miliwn.

Dylai'r cymunedau yr ydych yn ymwybodol yr hoffent weld darpariaeth CCTV yn cael ei ddarparu wneud achos i'w partneriaeth diogelwch cymunedol fel y gellir ei ystyried ochr yn ochr â'u blaenoriaethau gwario eraill yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

I gloi, efallai yr hoffech wybod y disgwylir i adroddiad pwysig gael ei gyhoeddi ddiwedd y flwyddyn ar effeithiolrwydd CCTV. Fe'i comisiynwyd gan y Swyddfa Gartref ac mae'n astudiaeth dair blynedd gan y Scarman Centre ym Mhrifysgol Leicester, a arweiniwyd gan yr Athro Martin Gill. Hwn fydd yr astudiaeth fwyaf cynhwysfawr o bell ffordd hyd yn hyn yn edrych ar nifer o faterion a mathau o ddarpariaeth CCTV. Gobeithio bod hyn yn ddefnyddiol.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ37683 a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar 5 Hydref 2004

**At Rhodri Glyn Thomas:**

Yn ystod cwestiynau ar 22 Medi, bu ichi ofyn cwestiwn imi ynghylch lleoliadau yng Nghymru i blant o Loegr sy'n derbyn gofal. Addewais roi ateb ysgrifenedig i chi.

Cyfrifoldeb yr awdurdod 'lleoli' yn Lloegr yw sicrhau bod lleoliadau o'r fath yn cwrdd ag anghenion y plentyn, gan ystyried eu hanghenion cymdeithasol, a'u hanghenion o ran iechyd, addysg a diwylliant. Mae gan yr awdurdod lleoli ddyletswydd i hysbysu adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod 'derbyn', yr awdurdod addysg lleol a'r bwrdd iechyd lleol fod plentyn wedi ei leoli yn eu hardal. Dylid cytuno ar unrhyw wasanaethau y mae angen i'r awdurdodau derbyn eu darparu cyn i'r cyfnod lleoli ddechrau.

Gan fod lleoli unrhyw blentyn yn bell iawn o'u cartref yn mynd â hwy oddi wrth eu rhwydweithiau cymunedol a theuluol, rhaid ystyried unrhyw leoli o'r fath yn ofalus. Mae symud plant dros y ffin yn achosi pryder i swyddogion Lywodraeth y Cynulliad a'r Adran Addysg a Sgiliau a chynhaliwyd trafodaethau ar y materion. O fis Ebrill nesaf ymlaen, mae'r Adran Addysg a Sgiliau yn bwriadu monitro nifer y plant o Loegr a leolir mwy na 20 milltir o'u cartrefi.

Mae pob cartref i blant ac asiantaethau gofal maeth yng Nghymru yn gweithredu yn unol â rheoliadau a safonau gofynnol cenedlaethol ac fe'u harchwilir gan Arolygaeth Safonau Gofal Cymru. Felly, cynhelir ansawdd y gofal a ddarperir i blant a leolir yng Nghymru (ni waeth o ble y daethant yn wreiddiol) drwy brosesau rheoleiddio ac archwilio.

Yn ychwanegol at hyn, fel rhan o waith Llywodraeth y Cynulliad i wella lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, comisiynwyd gwaith ymchwil ar ofal maeth, gofal preswyl a lleoliadau arbenigol. Rhannwyd prif negeseuon y gwaith ymchwil hwn (gan gynnwys yr angen am gynllunio cadarn ar gyfer lleoliadau) gydag awdurdodau lleol Cymru. Mae gwaith, sydd wedi ei gyllido yn rhannol gan Lywodraeth y Cynulliad, ar y gweill hefyd i ddatblygu arfer o gomisiynu lleoliadau ar y cyd ymysg awdurdodau lleol ledled Cymru.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ37685 a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar 22 Hydref 2004**

**At Mick Bates:**

Mae llythyr a anfonwyd at aelodau Cymdeithas Dai y Drenewydd sy'n gyfranddalwyr wedi ei anfon atoch er gwybodaeth. Fel y nodwch, mae'r llythyr yn rhoi hysbysiad o gyfarfod sydd i'w gynnal rhwng aelodau sy'n gyfrandalwyr a chynrychiolwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru i drafod dyfodol Cymdeithas Dai y Drenewydd. Cewch gopi o unrhyw ymateb sy'n codi o'r cyfarfod.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ37741 a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, ar 13 Hydref 2004**

**At Nick Bourne:**

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 22 Medi bu ichi ofyn cwestiwn ynghylch damweiniau ar gefnffordd yr A44 rhwng Llangurig ac Aberystwyth. Addewais roi ateb i chi ar y mater hwn.

Nodwyd cefnffordd yr A44 rhwng Llangurig ac Aberystwyth fel un o'r 30 darn o ffordd fwyaf peryglus mewn astudiaeth gynnar gan y Rhaglen Asesu Ffyrdd Ewropeaidd, sy'n bartneriaeth o sefydliadau moduro ledled Ewrop ac yn cynnwys yr AA ym Mhrydain.

O fewn yr ychydig flynyddoedd diweddaf, mae'r ffordd wedi cael budd o fesurau atal sgidio, arwyddion traffig a marciau ffordd gwell, lôn ar gyfer troi i'r dde a chylchfan newydd. O ganlyniad i'r gwelliannau hyn, cafwyd cryn ostyngiad yn nifer y damweiniau, i'r fath raddau fel bod gwefan cyfredol EuroRAP yn nodi mai ffordd risg 'canolig' yw hi bellach.

Mae'r rhan fwyaf o gefnffyrdd yng nghefn gwlad canolbarth a gorllewin Cymru yn cael eu nodi ar y wefan fel rhai yn y categorïau 'canolig' a 'canolig-uchel', felly ni ystyrir bellach fod y ffordd yn un drwg iawn. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i fonitro amgylchiadau a damweiniau ac i gymryd y camau priodol pan fo angen.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ37712 a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, ar 22 Hydref 2004**

**At Elin Jones:**

Byddwch yn cofio ichi ofyn cwestiwn i mi yn ystod y cwestiynau ar ddatblygu economaidd a thrafnidiaeth ar 22 Medi am y gwasanaeth bws Traws Cambria rhwng y Gogledd a'r De.

Fel yr eglurais ar y pryd, yr wyf yn ymwybodol o'ch pryderon, ac fe'u codwyd gydag Arriva. Deallaf fod Bob Hind, rheolwr gyfarwyddwr Arriva dros Gymru a gogledd-orllewin Lloegr, ers hynny wedi trafod cynigion y cwmni gyda chi, ac wedi egluro'r sefyllfa ddiweddaraf. Fel yr eglurais innau hefyd, byddaf yn sicrhau bod y ddarpariaeth o wasanaethau teithiau pell ar yr agenda pan gyfarfyddaf nesaf â'r Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr ac Arriva.

**At Christine Chapman:**

Byddwch yn cofio ichi ofyn cwestiwn yn ystod y cwestiynau ar ddatblygu economaidd a thrafnidiaeth ar 22 Medi ynghylch y gwasanaethau bysiau lleol a ddarperir gan Shamrock yng Nghwm Cynon.

Fel yr eglurais yn fy llythyr atoch ar 21 Medi, mae cyswllt cyson rhwng fy swyddogion a swyddfa Comisiynydd Traffig Cymru yn ogystal â'r Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr. Os gallwch ddarparu unrhyw dystiolaeth fanwl fod y cwmni wedi methu â chydymffurfio â'r manylion gwasanaeth y mae wedi eu cofrestru gyda'r comisiynydd, byddaf yn hapus i'w drosglwyddo i'r comisiynydd a AGCG i'w archwilio. Os yw'n addas, mae gan y comisiynydd y pwerau i orfodi cosbau ariannol a chyfyngiadau gweithredu.

**At Eleanor Burnham:**

Yn ystod y cwestiynau llafar ar 22 September bu ichi gyfeirio at gyflwr y trenau Pendolino sy'n rhedeg i'r Gogledd ac addewais ysgrifennu atoch.

Yr wyf wedi codi'r mater hwn gyda Virgin Trains, sydd wedi fy hysbysu y bu rhai problemau cychwynnol gyda'r cerbydau. Mae wedi ymdrechu'n galed i ddatrys y problemau ac fe'm sicrhawyd bod pethau yn llawer gwell erbyn hyn.

**At Janet Davies:**

Bu ichi godi mater y cynnydd o ran gorsaf Llanharan yn ystod y cwestiynau llafar ar 22 Medi ac addewais ysgrifennu atoch.

Mae'r cyllid yn dal i fod ar gael ac mae'r awdurdod lleol yn barod i ddechrau'r cynllun. Fodd bynnag, mae'r cyngor yn disgwyl am ganlyniad ystyriaethau Network Rail a'r Awdurdod Rheilffordd Strategol ar yr achos busnes. Fe'm sicrhawyd gan y ddau gorff bod hyn yn mynd rhagddo cyn gyflymed â phosibl.

**At Jeff Cuthbert:**

Bu ichi godi mater y gwelliannau i'r signalau ar linell cwm Rhymni yn ystod y cwestiynau llafar ar 22 Medi ac addewais ysgrifennu atoch.

Mae gan Gymdeithas Drafnidiaeth De Ddwyrain Cymru gynllun i wella'r gwasanaethau ar linell cwm Rhymni. Bydd y cynllun yn cynnwys darparu gorsaf newydd yn Energlyn, pedwar trên yr awr ym Margoed, dau drên yr awr i Rhymni, bwlch amser gwell ar gyfer y signalau

gan ddefnyddio technoleg sy’n bodoli eisoes a phlatfformau estynedig ar gyfer trenau gyda cerbydau hwy. Mae sut y caiff hyn ei raglennu a chynigion eraill gan SEWTA ar gyfer buddsoddi yn y rheilffyrdd yn cael eu hystyried yng nghyd-destun ceisiadau am grant trafnidiaeth.